# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 53344/53351/53354/53343 i’w hateb ar 12 Chwefror 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiwn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion cost pob un o’r uwchgynadleddau economaidd diweddar a gynhaliwyd i roi sylw i’r materion sy’n codi o’r dirywiad presennol, ac a wnaiff ddadansoddi’r ffigurau hynny yn ôl meysydd gwario penodol? (WAQ53344)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Yn dilyn yr ymateb dros dro a gawsoch ar gyfer WAQ 53344, rwyf bellach yn gallu rhoi ymateb i chi. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Dyma'r manylion a'r dadansoddiad o gostau yn cynnwys TAW:

| Dyddiad | Lleoliad | Costau |
|---|---|---|
| 16 Hydref 2008 | Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | Lluniaeth - £170.38 |
| 6 Tachwedd 2008 | OpticTechnium, Llanelwy | Llogi ystafelloedd - £411.25;<br>Llungopïo - £4.11<br>Lluniaeth/arlwyo - £544.61 |
| 5 Rhagfyr 2008 | Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | Lluniaeth - £164.45; Argraffu - £504.00 |
| 6 Chwefror 2009 | Airbus, Brychdyn | Cynhaliwyd gan Airbus; dim cost i Lywodraeth y Cynulliad |
| 7 Ebrill 2009 | Stadiwm Liberty, Abertawe | Llogi ystafelloedd - £1009.12;<br>Llogi offer - £138.00;<br>Lluniaeth/arlwyo - £1049.38; |
| 4 Mehefin 2009 | Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Merthyr Tudful | Lluniaeth - £167.41 |
| 17 Gorffennaf 2009 | TechniumCAST, Bangor | Llogi ystafelloedd - £538.20;<br>Lluniaeth/arlwyo - £330.05;<br>Llungopïo/ffacs - £10.81 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ac eithrio yn ystod yr uwchgynadleddau economaidd diweddar, pryd oedd y tro diwethaf i’r Gweinidog gwrdd â chynrychiolwyr Ffederasiwn y Busnesau Bach? (WAQ53351)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Yn dilyn yr ymateb dros dro a gawsoch ar gyfer WAQ 53351, rwyf bellach yn gallu rhoi ymateb i chi. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Cwrddais â chynrychiolwyr y Fforwm Busnesau Preifat ar 18 Tachwedd a'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) ar 24 Tachwedd 2008.

Ers mis Chwefror, rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr y sector busnes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 02 Mawrth 2009 | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) a'r FSB, Tŷ Hywel |
| 13 Mawrth 2009 | Cyfarfod brecwast Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Llanelwy |
| 21 Mawrth 2009 | Cynhadledd Flynyddol FSB, Casnewydd |
| 10 Mehefin 2009 | Cyfathrebu Marchnata Creadigol FSB, Senedd |
| 18 Mehefin 2009 | Fforwm brecwast Datrysiadau Rheoli Staff ER, Bro Morgannwg |
| 15 Gorffennaf 2009 | CBI, Tŷ Hywel |
| 17 Gorffennaf 2009 | Cyfarfod brecwast Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Bangor |

At hynny, mynychais gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Busnes ar 19 Mawrth lle'r oedd CBI, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, FSB, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn bresennol ac ar 15 Gorffennaf pan oedd CBI, FSB, Siambr Cymru, Cymdeithas Cludiant Ffyrdd, Cyngor Benthycwyr Morgeisi a Chymdeithas y Cyfreithwyr yn bresennol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob cyfarfod a gafodd ef neu ei swyddogion â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yng nghyswllt datblygu llwybrau newydd. (WAQ53354)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Ymhellach i'r ateb dros dro a gawsoch ar gyfer WAQ 53354, rwyf bellach mewn sefyllfa i roi ateb sylweddol ichi. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ateb.

Cyfarfûm ag uwch reolwyr Maes Awyr Caerdydd ar 5 Mehefin 2008, 21 Gorffennaf 2008 ac ar 12 Ionawr 2009. Pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd trafod fframwaith i ddatblygu perthynas yn y dyfodol a fyddai'n annog llwybrau teithio newydd o'r maes awyr. Bydd y fframwaith hwn yn ein galluogi i weithredu'n effeithiol pan fydd cyfle addas yn codi.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion faint o arian a dalwyd mewn grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ53343) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth***

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn dilyn yr ymateb dros dro a gawsoch ar gyfer WAQ 53343, rwyf bellach yn gallu rhoi ymateb i chi. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Talodd Gwobrau Teilyngdod Ymchwil a Thechnoleg ar gyfer Cwmnïau Bach (SMART), a sefydlwyd yn 2002/03, yr arian canlynol ym mhob blwyddyn y bu'n gweithredu:

| **Blwyddyn** | **Cyfanswm y Grantiau (£000oedd)** |
|---|---|
| 2002/03 | 3,788 |
| 2003/04 | 5,043 |

| | |
|---|---|
| 2004/05 | 6,254 |
| 2005/06 | 4,953 |
| 2006/07 | 5,743 |
| 2007/08 | 7,241 |
| 2008/09 (10 mis) | 6,223 |

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth pellach ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu, ond ni chesglir y wybodaeth hon yn ganolog.